**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**
**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**
**TÎM COMISIYNU**

# ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

| | |
|---|---|
| **Enw/Cyfeiriad y Darparwr:** | Gwasanaethau Cymorth Preswyl Cynlluniedig (PRESS), 86 Bryncelyn, Nelson, Caerffili, CF46 6HN |
| **Dyddiad yr Ymweliad:** | Dydd Iau, 14 Ebrill 2022 |
| **Swyddog(ion) yn Ymweld:** | Amelia Tyler: Swyddog monitro contractau, CBS Caerffili |
| **Presennol:** | Stephen Smothers: Unigolyn cyfrifol, PRESS<br>Sharon Bucknall: Rheolwr y Cartref, PRESS<br>Jason Yorath: Dirprwy Reolwr, PRESS |

## 1. Cefndir

**1.1** Mae Bryncelyn yn gartref preswyl ar gyfer unigolion gydag anabledd dysgu. PRESS sy'n berchennog ar y cartref ac yn ei reoli, nhw yw'r darparwyr cofrestredig o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili.

**1.2** Mae Bryncelyn yn fyngalo mawr yn sefyll ar ei ben ei hun, ym mhentref Nelson, gyda mynediad hawdd at yr holl gyfleusterau lleol. Mae ganddo fe ystafell wydr fawr, olau, a gardd y gall y preswylwyr ei defnyddio os bydd y tywydd yn caniatáu.

**1.3** Mae cofrestriad Bryncelyn yn cynnwys tri oedolyn ieuangach (18-64 mlwydd oed) gydag anabledd dysgu. Ar adeg yr ymweliad, roedd tri o breswylwyr: un wedi'i ariannu gan CBS Blaenau Gwent, un gan CBS Caerffili ac un gan CBS Merthyr Tudful.

**1.4** Gan ddibynnu ar gynnwys yr adroddiad hwn, gall y darparwr gael camau cywirol a/neu gamau datblygiadol i'w cwblhau. Mae camau cywirol yn dasgau y mae'n rhaid eu cwblhau (fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth ayyb) a chamau datblygiadol yn rhai y bernir eu bod yn arfer da.

## 2. Argymhellion Cynharach

**2.1** Oherwydd y pandemig Covid, ni fu unrhyw ymweliadau â'r eiddo ers 26 Ionawr a 7 Mawrth 2018 ac ni welwyd bryd hynny bod angen unrhyw gamau datblygiadol na chamau cywirol.

## 3. Canfyddiadau o'r Ymweliad

### 3.1 Hyfforddiant

**3.1.1** Bydd tîm staff y cartref yn defnyddio cymysgedd o hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant ystafell ddosbarth. Bydd ansawdd yr hyfforddiant yn cael ei asesu yn

ystod goruchwylio a chyfarfodydd tîm. Trafodwyd y pwynt y gall hyfforddiant olygu gwariant ariannol mawr, ac mae'n bwysig i'r sefydliad gael gwerth am arian. Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau bod adegau yn y gorffennol pan na chafwyd adborth da oddi wrth y staff, a chafwyd darparwyr hyfforddiant eraill.

**3.1.2** Eglurodd yr unigolyn cyfrifol y gwelwyd lle'r oedd bylchau mewn hyfforddiant trwy wneud asesiadau cymhwysedd, arsylwi, archwiliadau (e.e. adolygiadau misol, archwiliadau meddyginiaeth) a thrwy oruchwylio. Dywedwyd hefyd wrth y swyddog monitro contractau y gall yr unigolyn cyfrifol ddarparu hyfforddiant ar epilepsi a diogelu. Nodwyd y cynhaliwyd hyfforddiant cymorth cyntaf yn ystod yr wythnos cyn yr ymweliad, a bod sesiynau ar epilepsi a diogelu i ddigwydd yn ystod wythnos yr ymweliad a'r wythnos ddilynol.

**3.1.3** Eglurwyd nad oedd y cynnig gweithredol yn cael ei weithredu ar yr adeg honno, ac nad oedd gan PRESS unrhyw gleientiaid na staff oedd yn siarad Cymraeg.

**3.1.4** Nid oedd cofnodion staff yn cael eu cadw yn yr eiddo hwn, a byddai ymweliadau pellach yn digwydd, i'r brif swyddfa, i edrych ar y ffeiliau hynny: gyda threfniant i ymweld ar 10 Mai 2022.

**3.2** Staffio

**3.2.1** Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau bod dau aelod o staff ar ddyletswydd o 7 y bore hyd 10 yr hwyr bob dydd, ac un aelod o staff yn effro trwy'r nos. Nodwyd hefyd bod rheolwr y cartref a'r dirprwy reolwr yn gweithio 50% o'u hamser ym Mryncelyn a 50% yn yr eiddo cysylltiedig yn Nhrelyn.

**3.2.2** Bydd y darparwr yn cyflogi grŵp o staff cynorthwyo symudol i lenwi unrhyw absenoldebau, sy'n osgoi'r angen am staff asiantaeth. Pe bai'r unigolyn cyfrifol yn absennol am gyfnod hirach, dywedwyd y byddai'r rheolwyr eraill yn rhannu'r cyfrifoldebau rhyngddyn nhw, a byddai un o'r perchnogion hefyd yn gallu cynorthwyo. Hefyd, soniodd yr unigolyn cyfrifol bod aelod newydd o staff gweinyddol wedi dechrau yn ddiweddar, a byddai hynny o gymorth gyda llawer o waith swyddfa.

**3.2.3** Eglurodd yr unigolyn cyfrifol nad oedd unrhyw staff yn gweithio mwy na 48 awr yr wythnos yn rheolaidd, a'r oriau hiraf fyddai ar gyfer warden nos symudol sydd ar gytundeb o 40 awr. Fel soniwyd yn gynharach, roedd y rheolwr cofrestredig a'r dirprwy yn gweithio ar draws 2 eiddo, gyda'r amser wedi'i rannu mor gyfartal ag y bo modd rhwng y ddau leoliad. Eglurwyd bod yr unigolyn cyfrifol (sydd hefyd y rheolwr gyfarwyddwr) yn cymryd rhan bendant iawn yn y gwasanaeth ac yn cynnig llawer o gymorth i'r tîm staff, gydag ymweliadau fel arfer yn digwydd heb unrhyw rybudd ohonyn nhw ymlaen llaw.

**3.3** Archwiliad o ffeiliau a dogfennau

**3.3.1** Roedd tystiolaeth ar y ffeil a welwyd o gyfeirio materion at bobl broffesiynol fel y nyrs ardal, meddyg teulu, therapi iaith a lleferydd, a'r optegydd. Trafodwyd na fu angen unrhyw gyfeirio am nifer sylweddol o fisoedd ar gyfer yr unigolyn a leolwyd

gan CBS Caerffili, a’r dyddiad olaf a gofnodwyd ar gyfer cyfeirio gyda nhw oedd apwyntiad trin traed ar 31 Awst 2018.

**3.3.2** Roedd y cynllun personol yn gweithredu o gwmpas yr unigolyn ac yn cynnwys gwybodaeth am beth oedd hi’n ei hoffi, gan dynnu sylw at fanylion fel ei bod hi’n hoffi i’r crystiau gael eu torri oddi ar ei brechdanau, ac nad oedd hi’n hoffi bwyd gludiog. Nodwyd nad oedd y preswylydd na’i chwaer wedi llofnodi’r ddogfen, ac nad oedd unrhyw gofnod o pam nad oedd modd gwneud hynny. Mae’n arfer da cael eu llofnodion ar y dogfennau perthnasol er mwyn dangos bod yr unigolyn sy’n cael cymorth a/neu eu cynrychiolydd yn cymryd rhan yn y cynllun.

**3.3.3** Roedd y deilliannau a gytunwyd wedi’u nodi ar y cofnod ‘cadw golwg’. Dywedwyd mai’r nod oedd i’r preswylydd fynd i’r sinema unwaith y mis, i weld sioe bob 2 fis ac i gael cymorth i fynd i’r arcêds ddwywaith y mis.

**3.3.4** Cydnabuwyd nad oedd unrhyw ffurflen DNACPR ar ffeil, na thystiolaeth y trafodwyd hynny gyda’r preswylydd a/neu eu perthnasau agosaf. Roedd cofnod gwybodaeth ysbyty ar gael, a adolygwyd ar 08.04.22, ond yn y rhan ar ymyraethau meddygol roedd yn dweud ‘ddim yn gwybod’. Er y gall hyn yn aml fod yn bwnc emosiynol, mae’n arfer da cael barn y bobl sy’n cael cymorth ar beth fydden nhw’n dymuno i ddigwydd pe bai argyfwng meddygol.

**3.3.5** Nid oedd cytundeb ar ffeil yn rhoi amlinelliad o sut yr oedd y perthnasau agosaf yn dymuno cael eu hysbysu am unrhyw ddigwyddiadau; gall weithiau fod nifer o berthnasau, a dylid cytuno pwy yw’r prif un i gysylltu â nhw h.y. bydden nhw eisiau cael eu hysbysu pe bai sefyllfa ddifrifol, ddydd neu nos, fel mynd i’r ysbyty neu syrthio, ond a oedd angen eu hysbysu os bu camgymeriad gyda meddyginiaeth, gwres uchel, tagu ac ati, yn ystod yr alwad ffôn nesaf i roi’r wybodaeth ddiweddaraf? Mae’n arfer da nodi yn union beth yw’r disgwyliadau ar gyfer yr holl bartïon.

**3.4** <u>Sicrhau ansawdd</u>

**3.4.1** Nodwyd bod 2 sylw yn canmol yn y llyfr sylwadau; 1 gyda dyddiad Mai/Mehefin 2019 oddi wrth nith 1 preswylydd, yn rhoi adborth cadarnhaol a dweud ei bod hi’n hapus iawn gyda’r cymorth a ddarparwyd a’i bod hi’n cael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd yr ail sylw gyda’r dyddiad 05.10.21, lle'r oedd y rheolwr gofal yn dweud na allai ganmol digon ar y cartref am y gofal a roddwyd i’r preswylydd.

**3.4.2** Darparwyd copi o’r adroddiad rheoliad 73 diwethaf, a gyflawnwyd gan yr unigolyn cyfrifol ar 07.02.22. Roedd hwn yn ymdrin â rhannau fel ffeiliau dyddiol defnyddwyr gwasanaeth, damweiniau a digwyddiadau, cofnodion ariannol, ffeiliau sicrhau ansawdd, materion diogelu, lles defnyddwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac ati. Yn ôl yr adroddiad, roedd materion yn aros am sylw, yn bennaf o ran ymddangosiad yr eiddo a diogelwch tân. Cofnodwyd y byddai hynny’n cael sylw cyn gynted ag y bo modd, a dywedwyd hynny eto yn ystod y sgwrs gyda’r rheolwr, lle dywedwyd ei bod yn anodd cael contractiwr i wneud y gwaith.

**3.4.3** Darparwyd copi o’r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth, oedd wedi cael ei adolygu ar 31 Ionawr 2022, hefyd cafodd y datganiad o ddiben ei adolygu ar 28.01.2022 ac nid oedd angen unrhyw newidiadau iddo ar yr adeg honno.

**3.4.4** Eglurodd yr unigolyn cyfrifol, pe bai cwyn yn digwydd, byddai ef yn gyntaf yn ffonio’r un a gwynodd er mwyn cael eglurhad o’r manylion a chytuno beth i’w wneud (pe bai angen). Wedyn byddai llythyr i ddilyn ymlaen ar hyn, er mwyn sicrhau bod cofnodion eglur yn bodoli ar gyfer archwilio.

**3.4.5** Pe bai cwyn yn digwydd, byddai’r mater yn cael ei godi gyda staff mewn cyfarfod tîm, a phe bai angen a’i fod yn ymwneud ag aelod penodol o staff, byddai’n cael ei drin yn unol â’r drefn ddisgyblu. Ni fu angen gwneud newidiadau i’r gwasanaeth o ganlyniad i unrhyw adborth a gafwyd.

**3.5** Adborth oddi wrth staff

**3.5.1** Fe siaradwyd gydag un aelod o staff fel rhan o’r broses fonitro. Eglurodd ei bod yn gwybod lle'r oedd y cynlluniau personol a’r asesiadau risg yn cael eu cadw, a byddai’n cael gwybod am unrhyw newidiadau iddyn nhw.

**3.5.2** Roedd yn amlwg bod gan staff ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a dewisiadau’r bobl roedden nhw’n eu cynorthwyo. Eglurwyd bod un o’r tenantiaid wedi gwrthod newid allan o’u pyjamas a bod rheiny i’w gweld yn llaith gyda phoer, fodd bynnag pe cai ei orfodi i newid gallai hynny achosi gofid iddo fe. Byddai staff o ganlyniad i hynny yn parhau i hyrwyddo ac annog hyd nes oedd e’n barod.

**3.5.3** Yn ystod y sgwrs, eglurwyd bod tenant arall yn mwynhau mynd allan am dro yn eu cadair olwyn, i arcêds difyrion a chael prydau bwyd allan gyda’i chwaer. Dywedodd yr aelod staff y byddai tenantiaid fel arfer yn mynd allan am 2-3 awr y dydd, gan ddibynnu ar sut roedden nhw’n teimlo, sut roedd y tywydd, ac a oedd unrhyw apwyntiadau meddygol ac ati.

**3.5.4** Dywedodd yr aelod staff eu bod nhw’n teimlo anogaeth i gynnig awgrymiadau am ffyrdd o wella ansawdd bywyd y tenantiaid. Dywedwyd wrth y swyddog monitro contract bod cyfarfodydd tŷ yn canolbwyntio bob tro ar y cleientiaid. Byddai cyfarfodydd rheolwyr hefyd yn digwydd yn rheolaidd, felly cai’r tîm staff wybod am redeg y cartref yn gyffredinol ac unrhyw fwriad i wneud newidiadau. Tynnwyd sylw hefyd at fod yr aelodau staff yn ymwybodol o’r polisi ar seinio rhybudd, ac y bydden nhw’n hyderus i godi unrhyw bryderon pe bai angen.

**3.6** Adborth oddi wrth breswylwyr

**3.6.1** Nid oedd modd siarad gyda’r preswylydd a leolwyd yno gan CBS Caerffili am ei bod hi’n cysgu yn ystod rhan helaeth o amser yr ymweliad a ddim yn gallu cyfathrebu ar lafar. Roedd gan y tenantiaid eraill hefyd anawsterau cyfathrebu cymhleth.

**3.7** Adborth oddi wrth berthnasau

**3.7.1** Siaradwyd dros y ffôn gydag un perthynas, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth. Roedd yr adborth yn wirioneddol gadarnhaol, gan eu bod nhw'n dweud bod eu perthynas yn cael gofal da iawn ac yn cael eu 'sbwylio' gan y staff. Dywedwyd wrth y swyddog monitro contract y bu'r unigolyn yn byw ym Mryncelyn am 4 mlynedd a'u bod yn cael mynd allan yn rheolaidd am awyr iach ac i gael mynediad i'r gymuned.

**3.7.2** Pan oedd y tenant yn gallu mynd allan, byddai staff yn aml yn ei chynorthwyo hi i fynd i wasanaeth eglwys ar y Sul ac wedyn am ginio gyda'i chwaer.

**3.7.2** Eglurodd y berthynas nad oedd unrhyw beth y gallen nhw feddwl amdano fyddai'n gwella'r gwasanaeth. Pan ofynnwyd, dywedwyd eu bod nhw'n hapus iawn gyda'r cymorth ac yn hyderus i godi unrhyw bryderon gyda'r tîm rheoli pe bai angen.

**3.8** <u>Sylwadau cyffredinol</u>

**3.8.1** Roedd y tenantiaid yn gyffredinol yn lân a thaclus, ac fe soniwyd yn gynharach bod 1 gŵr wedi dewis peidio newid i'w ddillad arferol.

**3.8.2** Dywedwyd bod un o'r gwŷr yn cael desg wedi'i gwneud yn arbennig iddo fe, oedd yn cymryd 2 fis i'w hadeiladu a'i danfon yno; roedd yn amlwg ei fod e'n edrych ymlaen at iddi gyrraedd. Roedd yr holl ystafelloedd wedi'u haddurno'n ddeniadol, a thystiolaeth o nodweddion personol h.y. ffotograffau, gorchuddion golau, lluniau roedd 1 tenant wedi'u paentio a ryg roedd tenant arall wedi'i wneud, lampau synhwyrau a pheli gwasgu.

**3.8.3** Roedd difrod i rai o'r drysau, fframiau drysau a bordiau sgertin ac roedd angen eu trwsio, ond roedd hynny wedi cael ei nodi a'i gofnodi gan y rheolwr a'r rheolwr gyfarwyddwr. Roedd hefyd angen gorffen gwaith ar nenfwd y cyntedd o ran diogelwch tân, ac roedd hynny'n cael sylw, ond bod oedi wrth geisio canfod contractor dibynadwy.

## 4. <u>Camau Cywirol/Datblygiadol</u>

**4.1** <u>Camau cywirol</u>

**4.1.1** Pan gaiff cynllun personol ei adolygu, bydd yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r unigolyn sy'n cael y gofal a chymorth, yr awdurdod lleoli (os yw'n berthnasol) neu unrhyw gynrychiolwyr. Y ffordd hawsaf o ddangos tystiolaeth o hynny fyddai trwy gael llofnodion y rhai sy'n cymryd rhan.

**4.2** <u>Camau datblygiadol</u>

**4.2.1** Dylid ystyried sut i gofnodi dymuniadau'r unigolyn os digwydd argyfwng meddygol.

**4.2.2** Mae'n arfer da cofnodi ar ôl cytuno sut i hysbysu perthnasau o unrhyw ddigwyddiadau.

## 5. <u>Casgliad</u>

**5.1** Ni chodwyd unrhyw bryderon o ran y cymorth a ddarparwyd yn y cartref, ac roedd y staff yn dangos bod ganddyn nhw wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o anghenion y preswylwyr oedd yn byw yn y cartref. Roedd yn dda gweld y ganmoliaeth a gofnodwyd oddi wrth berthynas a rheolwr gofal, a chael sylwadau cadarnhaol oddi wrth chwaer un preswylydd.

**5.2** Roedd y ffeil preswylydd a welwyd yn eglur ac wedi'i chyflwyno'n dda, a'r wybodaeth yn hawdd i'w chanfod. Cafodd rhai camau cywiro eu canfod, i'w trafod a'u hystyried gan y tîm rheoli.

**5.3** Mae bwriad gwneud gwaith ar estheteg yr eiddo fel yr amlinellwyd yng nghorff yr adroddiad, ac i hynny gael ei gwblhau cyn gynted ag y ceir contractiwr addas. Mae'r swyddog monitro contractau yn gofyn am gael gwybod cyn gynted ag y trefnir dyddiad.

**5.4** Mynegir diolch i bawb fu'n cymryd rhan yn y broses fonitro am eu hamser a'u croeso.

**<u>Awdur:</u>** Amelia Tyler
**<u>Dynodiad:</u>** Swyddog monitro contractau
**<u>Dyddiad:</u>** 27 Ebrill 2022